0151

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ym Mhrif Siambr Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, y Cilgant, Llandeilo ar ddydd Mawrth 17eg Chwefror 2004 am 7.30 pm.

Presennol: *Cynghorwyr*: Cyng D. A. Jones (Maer), Cyng S. Burge, Cyng K. Day, Cyng C. Jenkins, Cyng I. Gwyn, Cyng R. Bellamy (Dirprwy Faer), Cyng D. Williams.

Arall: C. Paterson (Clerc y Dref), R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), Cynghorydd Sir I. Jones.

6001: Ymddiheuriadau am Absenoldeb: Cyng C. Cooper, Rhingyll N. Jones (Rhingyll yr Heddlu).

6002: Cofnodion o Gyfarfod Blaenorol o'r Cyngor Llawn.

Derbynnir Cofnodion o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ym Mhrif Siambr Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Y Cilgant, Llandeilo ar ddydd Mawrth 20 Ionawr 2004 am 7.00pm fel cofnod cywir o'r Cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng Burge eiliwyd gan y Cyng Gwyn.

6003: Materion yn Codi:

5977: Cwestiynwyd y swm a deilir am oleuadau ar Lwybrau Troed gan y Cyng Gwyn.

Clerc i edrych ar hyn ac egluro'r swm hwn.

5977: Mae'r cyfreithiwr sydd â'r cyfrifoldeb o brynu'r ardd yn y Cilgant, yn mynd i edrych i mewn i'w hanes o ran hawl i fynediad o'r ddwy ardd arall. Teimlwyd fod hyn yn annhebygol gan fod yna lwybr troed traddodiadol yma.
5949: Wnaeth y Maer gynnal cyfarfod gyda Emyr John er mwyn gorffen y Cais am Grant ar gyfer y Rheils ar y Cilgant. Mae'r cytundeb wedi'i roi i 'Tumble Forge' ac mae cais wedi'i wneud i'r gwaith gael ei anfonebu erbyn y 18fed Mawrth 2004.
5952: Gyda gofid y mae'r Cyngor wedi derbyn gwybodaeth fod y Cyng Jenkins yn ymddiswyddo fel Cadeirydd y Gymdeithas Gymunedol. Mae dyfodol y Neuadd Ddinesig i'w drafod mewn cyfarfod Cyhoeddus ar nos Iau 26ain Chwefror 2004 am 7.00pm yn y Neuadd Ddinesig. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Arbennig arall yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mawrth 2il Mawrth 2004.

5977: Yr Arolwg Treftadaeth:

Bydd gwragedd Capel Newydd yn cynorthwyo gyda pharatoi Te a Choffi a bydd y Cyngor Tref yn rhoi rhodd i'r Capel, y Maer fydd yn penderfynu faint. Fe fydd yna Ddarlithoedd a Chyfieithu ar y pryd, gydag Arddangosfa o Gasgliad o Ffotograffau D. C. Harries. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi benthyg rhai printiau i'r Cyngor ond mae hefyd wedi prynu rhai llungopïau ychwanegol o safon uchel ac mae'r Cyng Day wedi'u rhoi ar fownt. Am 12.30 bydd Andrew Williams yn lansio gwefan llandeilo.gov.uk yn swyddogol.

Dywedodd y Cynghorydd Sir I Jones wrth y Cyngor fod Swyddfa Priffyrdd y Cyngor Sir i symud i Swyddfeydd y Cyngor Sir, Y Gilgant, Llandeilo o'r 1af Mawrth 2004. Elfryn Williams yw'r Swyddog Cefnffyrdd newydd yn y swyddfeydd hyn.

6004: Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid. Mewn camgymeriad cafodd y canlynol ei adael allan o Gofnodion o'r Pwyllgor Cyllid.

Mae'r newidiadau i'r llofnodion ar gyfer cyfrifon banc fel a ganlyn:
Cyfrif y Trysorydd, C. Jenkins yn lle R. Davies.
Cyfrif y Maer, R. Bellamy yn lle G Vaughan Jones.

Gan gynnwys y diwygiad uchod mae'r Cyngor yn derbyn cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo am 7.00pm ar ddydd Mercher 4ydd Chwefror 2004 fel cofnod cywir o'r cyfarfod gan dderbyn yr argymhellion sydd ynddynt. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Day.

6005: Materion yn Codi: 5990: Gosod ffenest newydd yn y Neuadd Sirol, Mae'r Swyddog Technegol wedi derbyn dyfynbrisiau ar gyfer gosod y ffenest.

Gareth Peters sydd i wneud y gwaith o osod y ffenest yn y Neuadd Sirol. Bydd Archaeoleg Cambria yn cael gwybod ymhell o flaen llaw a bydd y gwaith o osod y ffenest yn digwydd o bosib ar ddydd Sadwrn, er mwyn osgoi achosi unrhyw anghyfleustra. Cynigiwyd gan y Cyng Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Day.

5992: Mewn perthynas â'r bleindiau yn y caban. Mae'r Swyddog Technegol wedi prisio bleindiau yn Focus (£20), LBS(£30) a 'B and Q'. Mae wedi dod o hyd i 4 Bleind am hanner pris sef £9.30. Prynwyd y rhain a'u gosod.

R. H. Griffiths i'w dalu £65.64 am eu prynu, costau teithio a gosod y bleindiau. Cynigiwyd gan y Cyng Jenkins eiliwyd gan y Cyng Day.

6006: Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol.

Derbynnir cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo am 8.30pm. ar ddydd Mercher 4ydd Chwefror 2004 fel cofnod cywir o'r cyfarfod ac mae'r Cyngor yn derbyn yr argymhellion sydd ynddynt. Cynigiwyd gan y Cyng Day ac eiliwyd gan y Cyng Burge.

6007: Materion yn Codi: Mae'r Clerc wedi siarad â'r adran gynllunio ac maent yn barod i dderbyn y sylwadau cynllunio yn ôl diwyg y cofnodion ar bapur pennawd. Mae hyn

yn golygu bod yn rhaid i'r Clerc lunio llythyr unigol bob mis gyda'r holl sylwadau a gwrthwynebiadau cynllunio.
Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones fod y taliadau Parcio Car i ddod i rym, er gwaetha'r ffaith fod yna ddryswch o hyd mewn perthynas â'r mannau parcio y tu ôl i Rosmaen lle y mae'r Farchnad Stryd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd. Mae gan berchnogion y siopau hawl i barcio yn y mannau hyn, ac mae swyddogion C.S.C. wedi cytuno i ddod i edrych ar y broblem hon.

Penderfynodd y Cyngor fod cyflwyno'r taliadau Parcio Car wedi'i orfodi ar y Dref yn erbyn ewyllys y Cyngor, y mater i'w roi fel eitem Agenda ffurfiol ar gyfer cyfarfod Llawn nesaf o'r Cyngor.

6008: Cofeb y Dref: Mae'r Maer wedi bod yn trafod gyda Robert Ap Steffan mewn perthynas â chael Cofeb yn y Dref. Mae gan Mr ap Steffan lawer o syniadau ac roedd yn awyddus i annerch y Cyngor mewn Cyfarfod o'r Cyngor Llawn.

Cytunodd y Cyngor i wahodd Mr Robert Ap Steffan i annerch cyfarfod o'r Cyngor Llawn. Yn dilyn hyn bydd y Cyngor yn sefydlu gr p llywio i ddatblygu'r syniad hwn.

6009: Cais Cynllunio E/05883; Mae'r Cais Cynllunio hwn wedi'i gyfeirio i'r Cyngor Llawn gan y Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol.

Nid oes gan y Pwyllgor Cynllunio unrhyw wrthwynebiadau i'r datblygiad arfaethedig o dan gais cynllunio rhif: E/05883. Serch hynny, mae'r cais cynllunio hwn yn gam nesaf mewn datblygiad llawer iawn mwy o faint. Hoffai'r Cyngor godi dau fater mewn perthynas â'r datblygiad cyfan: Yn gyntaf diffyg darpariaeth o rywfath o Fan Chwarae i'r plant sy'n byw yno. Yn ail diffyg mynediad i gerddwyr o'r datblygiad i mewn i'r dref. Nid oes palmant yn mynd heibio'r 'Walk' ac felly fe fyddai rhywun sy'n cerdded o'r datblygiad i'r dref yn gorfod cerdded ar y ffordd, un o'r prif ffyrdd i mewn i'r Dref sydd â chryn dipyn o Traffig yn teithio drosto.

6010: Un Llais Cymru. Mudiad newydd yw hwn i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Maent wedi gofyn am dâl aelodaeth yn y flwyddyn gyntaf.

Clerc i ddosbarthu gwybodaeth am y mudiad ac aelodaeth o Un Llais Cymru a'i roi fel eitem agenda ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth.

6011: Strimio a defnyddio chwyn laddwr yn Ysgubor Abad. Cafodd y Clerc ymweliad gan Dan Morris a wnaeth fynegi pryder ynghylch y defnydd o chwyn laddwr i glirio Ysgubor Abad.

Clerc i drefnu cyfarfod ar y safle rhwng y Swyddog Technegol a Mr Morris er mwyn cerdded y llwybr ac i edrych ar y broblem.

6012: Adroddiad y Maer.

0154

21ain Ionawr 04	Noson Agored yr Arolwg Treftadaeth
27ain Ionawr 04	Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn trefnu'r

	arddangosfa o Ffotograffau D. C. Harries.
27ain Ionawr 04	Cyfarfod y Gymdeithas Gymunedol – cynllun busnes i'r Neuadd Ddinesig. Mae angen corff bychain o bobl i gynnal y Neuadd Ddinesig.
28ain Ionawr 04	Cwrdd â Emyr John – Swyddog Grantiau – Rheils y Cilgant
5ed Chwefror 04	Cwrdd â Emyr John er mwyn gorffen y cais am grant.
9fed Chwefror 04	Cyfarfod ynghylch Llyfr Efengyl Sant Teilo.
13eg Chwefror 04	R. Bellamy, A Williams cyhoeddusrwydd ar gyfer lansio'r Wefan.
17eg Chwefror 04	Cwrdd â G. Hughes mewn perthynas â Diwrnod Agored yr Arolwg Treftadaeth.

Hefyd mae'r Maer wedi mynd trwy daflenni amser y Clerc gan argymell bod oriau'r Clerc yn cael eu cadw yn dair awr ar ddeg yr wythnos.

Oriau'r Clerc i barhau yn 13 awr yr wythnos. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, eiliwyd gan y Cyng I. Gwyn.

6013: Strydoedd a datblygiadau newydd. Codwyd y mater ynghylch enwi Strydoedd, Tai a datblygiadau newydd ac ati gan y Cynghorydd Sir I Jones. Mae arddeall bod y Cyngor Sir wedi datblygu polisi yngl n â datblygiadau bychain, hyd at 5/6 t , o fewn y Cynllun Datblygu Unedol ar yr amod nad yw'n agored i ddatblygiadau pellach, y gall y Datblygwr enwi'r Strydoedd a'r Tai. Dim ond pan fydd yna ddatblygiadau mwy o faint y dylid cyfeirio enwi strydoedd a thai at y Cyngor.

Argymhellodd y Maer y dylai'r Cyngor herio hyn. Dylid anfon llythyr at Mark James yn holi ynghylch â hawl y Cyngor i roi ei farn wrth enwi tai a strydoedd o fewn y dref.

6014: Gohebiaeth.

Biliau i'w talu:

Llyfrgell Genedlaethol Cymru - £45.41 Printiau o Ffotograffau i'w Harddangos.
'J.W. Thomas and Son' -£25.00 am brintio 500 o daflenni dwyieithog mewn perthynas â Diwrnod Agored yr Arolwg Treftadaeth.
Cynigiwyd talu'r biliau hyn gan y Cyng Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Day.

"The Warner and James Foundation" – Aelod i fynychu'r cyfarfod – Cyng S. Burge.

Hoffai'r Maer arwyddo'r Datganiad am Fyd sy'n Rhydd o Arfau Niwclear. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Williams.

Dangos darnau o ffilm o Archifdy Cenedlaethol Cymru yn Sinema Cross Hands ar y 25ain Chwefror 2004.

Mae'r system bresennol o ymdrin â gohebiaeth yn anfoddhaol.

Argymhellwyd gan y Maer y dylai'r Cyngor roi copi o Allwedd y Caban i bob Cynghorwr, ac y dylid gadael y post allan er mwyn i'r Cynghorwyr allu mynd trwy'r post cyn pob cyfarfod. Y Swyddog Technegol i ddod o hyd i gopïau o'r allweddu a hawlio'r gost.

0155

0155

Argymhellodd y Cyng Gwyn y dylai'r mater ynghylch ethol Maer gael ei roi fel eitem agenda cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Y llythyr ynghylch y mater o Lygredd Golau, fel ystyriaeth o'r Broses Gynllunio i'w gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm.